

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 No. 3223

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
(System Integredig Gweinyddu a Rheoli a
Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014**

RHAN 3

TRAWSGYDYMFFURFIO

Awdurdodau rheoli cymwys

14.—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod rheoli cymwys yn yr ystyr a roddir i “competent control authority” at ddibenion Erthygl 67 o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol ac eithrio pan bennir yn wahanol yn y rheoliad hwn.

(2) At ddibenion Erthygl 67(1)(a) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r “corff rheoli arbenigol” yn yr ystyr a roddir i “specialised control body”, sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am gyflawni'r rheolaethau mewn perthynas â'r gofynion rheoli statudol o dan rifau 5 ac 11 i 13 o Atodiad II i'r Rheoliad Llorweddol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â'r safonau y maent yn gyfrifol amdanynt, wneud yn ofynnol bod awdurdod perthnasol yn cyflawni rheolaethau neu wiriadau at ddibenion Erthygl 65, Pennod I o Deitl III a Phennod II o Deitl IV o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol, pan ofynnir iddo gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, weithredu'r rheolaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)—

- (a) anfon adroddiad rheoli dros dro, ynglŷn â'r rheolaethau a weithredwyd, ar Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ôl fel y digwydd);
- (b) os tybia, wrth ymgymryd â'i weithgareddau eraill, fod methiant i gydymffurfio wedi digwydd, hysbysu'r person neu'r corff sy'n gyfrifol, o dan baragraff (1) neu (2) o'r rheoliad hwn, am weithredu'r rheolaethau mewn perthynas â'r methiant hwnnw i gydymffurfio.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “awdurdod perthnasol” (“*a relevant authority*”) yw—

- (a) Cyfoeth Naturiol Cymru;
- (b) Awdurdod Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion; neu
- (c) Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

(6) Gweinidogion Cymru sy'n gorfodi'r Rhan hon o'r Rheoliadau, a chaiff Gweinidogion Cymru, mewn ysgrifen, awdurdodi personau i orfodi'r Rhan hon o'r Rheoliadau hyn.